LLAIS
Eich llais mewn iechyd a gofal cymdeithasol | Your voice in health and social care

**Eitem: 8**

**Teitl:** Fframwaith perfformiad sefydliadol

| | |
|---|---|
| **Gweithredu / Action required** | I gymeradwyo |
| **Amseru / Timing** | Arferol |
| **Argymhelliad / Recommendation** | Bod y Bwrdd yn cymeradwyo fframwaith perfformiad sefydliadol newydd. |
| **Risg / Risk** | Gallai diffyg dull perfformiad cydgysylltiedig gyfyngu ar ein gallu i olrhain cynnydd, rheoli risg, a dangos effaith. |
| **Cyllid / Finance** | Dim yn berthnasol |
| **Amcan Cynllun Corfforaethol / Corporate Plan Objective** | Blaenoriaeth Strategol 5 – Tyfu a gwella fel sefydliad. |
| **Cydraddoldeb / Equality** | Mae'r fframwaith yn cefnogi adrodd perfformiad cynhwysol, gan gynnwys data demograffig a thegwch i wella cyrhaeddiad a chynrychiolaeth. |
| **Cyfathrebu / Communications** | Ticiwch un o'r blychau canlynol os bydd y gweithgaredd hwn yn cael effaith ar:<br>**Mewnol:** ein pobl ☒<br>Allanol: ein cwsmeriaid/partneriaid/rhanddeiliaid ☒<br>Allanol: enw da ein sefydliad ☒ |
| **Cymeradwyaeth / Approval/Clearance** | Ben Eaton |
| **Trafodaethau/Penderfyniadau Blaenorol / Previous Discussions/Decisions** | Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg - Argymhelliad archwilio mewnol (sicrwydd rhesymol) i gydgrynhoi safonau a phrosesau perfformiad. |
| **Awdur/Cyflwynwr / Author/Presenting** | Ben Eaton |
| **Dyddiad / Date** | Medi 2025 |

LLAIS
Eich llais mewn iechyd a gofal cymdeithasol | Your voice in health and social care

## Cefndir / Background

Rydym wedi datblygu fframwaith perfformiad sefydliadol newydd i integreiddio ein prosesau perfformiad, sicrwydd a rheoli risg yn un strwythur cydlynol. Mae'r fframwaith hwn hefyd yn ymateb i argymhelliad gan archwiliad mewnol (sgôr sicrwydd rhesymol) ac yn adlewyrchu ein hymrwymiad i dryloywder, dysgu ac effaith.

Mae'r fframwaith wedi'i gynllunio i'n helpu i olrhain perfformiad, deall a defnyddio data a mewnwelediad, a chyflawni ein pwrpas: cryfhau llais pobl ledled Cymru ym maes iechyd a gofal cymdeithasol.

Mae'r fframwaith wedi'i gynnwys fel atodiad i'r papur clawr hwn.

## Manylion / Detail

Mae'r fframwaith yn nodi:

- Beth mae perfformiad yn ei olygu i Llais, h.y. nid dim ond cyflawni, ond effaith o ddysgu, gan gynnwys newid gwasanaeth.
- Sut rydym wedi ein strwythuro, gyda rolau clir ar gyfer y Bwrdd, Pwyllgorau, y Tîm Gweithredol, ac arweinwyr rhanbarthol/swyddogaethol.
- Ein hoffer a'n systemau: gan gynnwys Amcanion a Chanlyniadau Allweddol (OKRau), dangosfyrddau, Rheoli Perthynas â Chwsmeriaid (CRM), olrhain archwiliadau, a chynlluniau gweithredu.
- Sut mae mewnwelediad yn siapio perfformiad gan ddefnyddio lleisiau, straeon a data pobl i arwain gwelliant.
- Goruchwylio ac adrodd: cylchoedd misol, chwarterol a blynyddol i sicrhau gwelededd ac atebolrwydd.
- Diwylliant a gwelliant parhaus, gan ymgorffori perfformiad fel busnes pawb, gyda ffocws ar chwilfrydedd, perchnogaeth a dysgu.

Mae'r fframwaith hwn yn cyd-fynd â'n Fframwaith Sicrwydd Bwrdd a'n Strategaeth Rheoli Risg, gan greu golwg gydgysylltiedig o gyflawni, risg ac effaith.

Camau nesaf os bydd y Bwrdd yn cymeradwyo'r fframwaith:

- Hyfforddiant a chyflwyno. Byddwn yn cefnogi ein pobl i ddeall a defnyddio'r fframwaith yn eu gwaith o ddydd i ddydd.

- Cysylltu datblygiad system Rheoli Perthynas â Chwsmeriaid â'r fframwaith drwy adrodd.
- Trawsnewidiad Amcanion a Chanlyniadau Allweddol – adolygu meddalwedd amgen i Viva Goals ar ôl cau ym mis Rhagfyr 2025.
- O Ch3 ymlaen ,byddwn yn dechrau adrodd yn ffurfiol i'r Bwrdd gan ddefnyddio'r fframwaith perfformiad sefydliadol. Bydd hyn wedi'i ymgorffori yn adran adrodd papurau perthnasol y Bwrdd a bydd yn darparu trosolwg strwythuredig o gynnydd yn erbyn amcanion strategol, canlyniadau allweddol, a mecanweithiau sicrwydd.

  I gefnogi hyn:
- Bydd **y Tîm Gweithredol** yn adolygu perfformiad y sefydliad yn fisol, gan ddefnyddio OKRau, dangosfyrddau a data CRM.
- Bydd **rheolwyr a thimau'n** defnyddio'r fframwaith i olrhain cyflawniad, nodi risgiau, a chynyddu dysgu drwy ddiweddariadau misol a chynlluniau gweithredu.
- Bydd **y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg** yn derbyn adroddiadau sicrwydd ddwywaith y flwyddyn sy'n cyd-fynd â'r Strategaeth Rheoli Risg a Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd.
- Bydd **y Bwrdd** yn derbyn adroddiadau perfformiad chwarterol, gyda ffocws ar gyflawni strategol, risg ac effaith.

  Mae'r dull hwn yn sicrhau bod ein set gysylltiedig o offer a mecanweithiau adrodd a ddisgrifir yn adran 4 o'r fframwaith yn cysylltu strategaeth â chamau gweithredu ac yn cefnogi atebolrwydd ar bob lefel o'r sefydliad.